

# Pecyn Ymddeoliad

2015



Cwmni Bensiynau Clwyd  
Clwyd Pension Fund

Administered by  
Cwmni  
Sir y Fflint  
Flintshire  
2009-2014

Nodyn Preifatrwydd - Mae'n ofyniad cyfreithiol i Gronfa Bensiynau Clwyd ddiogelu'r cyllid cyhoeddus mae'n ei weinyddu. Gall rannu gwybodaeth a roddir iddi gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu cyllid cyhoeddus, er mwyn atal a chanfod twyll. Gellir rhannu eich gwybodaeth sylfaenol gyda thrydydd parti hefyd (dosbarthwr), er mwyn argraffu a chyhoeddi ein gohebiaeth i aelodau mewn crynswth yn unig.

## Print Mwy

Am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn print mwy, braille, tâp neu ddisg, ffoniwch yr Adain Bensiynau ar 01352 702761

## Cynnwys

	Tudalen
Aelodaeth a Thâl Pensiynadwy	4
Cyfrifo buddion	5
Opsiynau cyfandaliad di-dreth	6
Cyfraniadau ychwanegol	7
Mathau o fuddion ymddeol	8
Ffactorau gostwng	11
Y Broses Ymddeol	12
Lwfans Blyneddol ac Oes	13
Materion Eraill	15
Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP)	16
Treth	17
Buddion sy'n daladwy ar ôl marwolaeth	18
Cysylltwch â ni	22

## Ffurflenni ategol

Taliad uniongyrchol o'ch pensiwn i gyfrif banc/cymdeithas adeiladu  
Taliad uniongyrchol o'ch cyfandaliad i gyfrif banc/cymdeithas adeiladu  
Ffurflen datgan pensiynau Lwfans Oes  
Ffurflen ddatgan – Statws priodasol neu Bartneriaeth Sifil

## Ymwadiad

Ni all y canllaw hwn gwmpasu pob amgylchiad personol ac os bydd unrhyw anghydfod ynghylch eich buddion pensiwn, bydd y ddeddfwriaeth briodol yn drech. Nid yw'r canllaw hwn yn rhoi unrhyw hawliau cytundebol neu statudol ac fe'i darperir er gwybodaeth yn unig.

## Aelodaeth a Thâl Pensiynadwy

Dyma gyfanswm y gwasanaeth rydych wedi'i gronni yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r Cyflog Pensiynadwy a ddefnyddir i gyfrifo eich buddion.

Mae'n cynnwys aelodaeth a gronnwyd fel a ganlyn:

Cyfnod o aelodaeth a ddefnyddir i gyfrifo buddion	Cyfradd cronni	Cyflog Pensiynadwy a ddefnyddir i gyfrifo buddion
Hyd at 31/03/2008	1/80fed	Cyflog Terfynol wrth adael*
01/04/2008 tan 31/03/2014	1/60fed	Cyflog Terfynol wrth adael*
01/04/2014 ymlaen	1/49fed	Cyflog Gwirioneddol yn ystod y cyfnod**

Sylwch, os oeddech yn rhan-amser / gweithio yn ystod y tymor am gyfnod o'ch aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014, mae eich gwasanaeth yn cael ei ostwng i gymryd hynny i ystyriaeth.

Bydd cyfanswm eich aelodaeth hefyd yn cynnwys unrhyw wasanaeth rydych wedi'i drosglwyddo i'r Cynllun a/neu unrhyw wasanaeth ychwanegol rydych wedi'i brynu.

### \*Ar gyfer aelodaeth cyn 2014:

Eich tâl pensiynadwy fel arfer yw'r tâl rydych wedi talu cyfraniadau atynt yn y 365 diwrnod cyn eich ymddeoliad. Os oeddech yn rhan-amser neu'n gweithio yn ystod y tymor y llynedd, bydd y tâl yn cael ei luosi hyd at gyfwerth â llawn amser am flwyddyn lawn.

Os yw eich cyflog wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, gellir seilio eich buddion pensiwn naill ai ar:

- Y gorau o'r tâl pensiynadwy yn y 3 blynedd diwethaf
- Cyfartaledd o dâl 3 blynedd yn olynol dros yr 13 mlynedd diwethaf yn dod i ben ar 31 Mawrth

### \*\*Ar gyfer aelodaeth ar ôl Ebrill 2014:

- Mae eich pensiwn yn seiliedig ar y cyflog pensiynadwy ym mhob blwyddyn o aelodaeth a chaiff ei ailbriso bob blwyddyn.

## Cyfrifo Buddion - enghraifft

Oed ymddeol 65 gydag aelodaeth 30 mlynedd			
Dyddiad Gadael:			31/03/2015
	Tâl y flwyddyn olaf:	£20,000	
Pensiwn hyd at 31/03/08	1/80 x 23 (o flynyddoedd) x	£20,000	= £5,750
Pensiwn o 01/04/08	1/60 x 6 (o flynyddoedd) x	£20,000	= £2,000
Pensiwn o 01/04/14	1/49 x 1 (flwyddyn) x	£20,000	= £408.16
Cyfanswm Pensiwn Blynyddol			= £8,158.16
		+	
Cyfundaliad	3/80 x 23 (o flynyddoedd) x	£20,000	= £17,250

Os oes gennych aelodaeth cyn 1 Ebrill 2008 byddwch yn derbyn grant ymddeol safonol yn awtomatig.

I greu neu gynyddu eich cyfundaliad, bydd gennych yr opsiwn i drosi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol.

Mae'r Grant Ymddeol yn gyfundaliad untro, di-dreth.



## Mathau o ymddeoliad

### Ymddeoliad Arferol

Mae aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014 yn 65 oed ar gyfer dynion a merched. Mae aelodaeth ar ôl 1 Ebrill 2014 yn cyd-fynd â'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

### Ymddeoliad Hwyr

Mae'n rhaid i'ch buddion fod mewn tâl cyn eich pen-blwydd yn 75 oed. Bydd buddion yn cael eu cynyddu yn actiwaraidd ar gyfer pob diwrnod a weithir y tu hwnt i'ch oedran ymddeol arferol.

### Ymddeoliad oherwydd Salwch

Gellir cymryd ymddeoliad oherwydd salwch yn ystod unrhyw oedran ar yr amod eich bod ag aelodaeth 2 flynedd. Nid yw'r buddion yn cael eu lleihau ar gyfer talu'n gynnar. Mae eich achos yn cael ei adolygu gan Ymarferwr Meddygol Cofrestredig Annibynnol (IRMP) a fydd yn asesu:

- Os ydych yn analluog yn barhaol i ymgymryd yn effeithiol â dyletswyddau cyflogaeth arferol oherwydd salwch neu wendid meddyliol neu gorfforol
- tebygolrwydd o ymgymryd â gwaith cyflogedig\*

\*Nid yw gwaith cyflogedig yn llai na 30 awr yr wythnos nac yn llai na 12 mis.

Bydd eich cyflogwr yn penderfynu ar y buddion a gewch yn seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys barn yr IRMP. Defnyddir y canllaw canlynol i bennu lefel y buddion a delir:

### Haen 1

Nid ydych yn gallu ymgymryd ag unrhyw waith cyflogedig hyd at Oedran Pensiwn Arferol (NPA)

- Buddion yn seiliedig ar aelodaeth a gronwyd at y dyddiad y daeth y gyflogaeth i ben
- A chodiad o 100% o fuddion posibl o'r dyddiad gadael at Oedran Pensiwn Arferol.

### Haen 2

Nid ydych yn gallu ymgymryd ag unrhyw waith cyflogedig o fewn 3 blynedd o adael ond mae tebygolrwydd o waith gyflogedig cyn NPA

- Buddion yn seiliedig ar beth a gronwyd gennych at y dyddiad y daeth y gyflogaeth i ben
- A chynnydd o 25% o fuddion posibl o'r dyddiad gadael at Oedran Pensiwn Arferol.

### Haen 3

Byddwch yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn 3 blynedd:

- Buddion yn seiliedig ar beth a gronwyd gennych at y dyddiad y daeth y gyflogaeth i ben (dim codiad)
- Yn dod i ben pan fyddwch yn cael gwaith cyflogedig
- Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i Awdurdod / adran Bensiynau am ailgyflogaeth
- Adolygu ar ôl 18 mis gan y cyflogwr
- Buddion yn cael eu talu am uchafswm o 3 blynedd

### Colli Swydd/Effeithlonrwydd

○ 55 oed mae buddion pensiwn yn daladwy ar unwaith.

- Nid yw buddion yn cael eu gostwng yn actiwaraidd
- Cyflogwr yn rhoi taliad colli swydd - mae gan bob cyflogwr eu polisi eu hunain ar lefel y taliad a ddyfarnwyd, yn amodol ar isafswm statudol.

## Ymddeoliad Hyblyg

Os ydych yn 55 neu'n hŷn, gallwch barhau mewn gwaith a thynnu eich buddion pensiwn os yw'r cyflogwr:

- Yn eich galluogi i leihau eich oriau neu raddfa AC
- Yn meddu ar bolisi sy'n caniatáu ymddeoliad hyblyg A
- Rhoi caniatâd i gymryd ymddeoliad hyblyg
- O bosibl wedi gostwng yn actiwaraid

## Ymddeoliad cynnar

Gallwch ymddeol o 55 oed ymlaen (gyda gostyngiadau). Gall eich cyflogwr gytuno i hepgor rhai neu'r holl ostyngiadau, cysylltwch â'ch cyflogwr i wirio eu polisi ar hyn.

## Gostyngiadau ar gyfer ymddeol yn gynnar

Os ydych yn derbyn eich buddion cyn eich Oedran Pensiwn Arferol (NPA) bydd eich buddion yn gostwng oni bai:

- Eich bod wedi colli eich swydd yn 55+ oed.
- Rydych wedi ymddeol ar sail salwch.
- Mae eich cyflogwr wedi cytuno i hepgor y gostyngiadau.
- Rydych yn cael eich diogelu'n llawn gan y rheol 85\* a 60+ oed.

\*Y Rheol 85 yw pan fyddwch yn ychwanegu eich aelodaeth (hyd calendr) a'ch oedran at ei gilydd a'u bod yn dod i gyfanswm o 85 neu fwy cyn eich pen-blwydd yn 65 oed.

Daeth grym y rheol 85 mlynedd i ben 1 Hydref 2006 ar gyfer dechreuwyr newydd felly bydd gostyngiadau yn cael eu cymhwyso i fuddion a gymerwyd cyn 65 oed oni bai eich bod yn 'aelod gwarchoddedig'.

Gellir gwarchod rhywfaint o'ch aelodaeth, neu eich aelodaeth gyfan. Nid yw'n bosibl rhestru'r gwahanol achosion, fodd bynnag, mae gwybodaeth bellach ar gael gan yr Adain Bensiynau ar gais.

## Ffactorau gostwng

Mae'r ffactorau isod yn cael eu cymhwyso i fuddion a dalwyd cyn Oedran Pensiwn Arferol (NPA). Efallai y bydd gennych fwy nag un NPA oherwydd bod newid i oedran ymddeol y cynllun ar gyfer aelodaeth ar ôl 1 Ebrill 2014. Bydd gostyngiadau yn cael eu cymhwyso i bob elfen o aelodaeth. Mae'r ffactorau isod yn cael eu harddangos mewn blynyddoedd llawn, fodd bynnag mae'r ganran yn cael ei haddasu ar gyfer pob diwrnod y byddwch yn ymddeol cyn eich NPA.

Blynyddoedd yn fuan	Gostyngiad Pensiwn (Gwryw)	Gostyngiad Pensiwn (Benyw)	Gostyngiad Cyfandaliad (y ddau ryw)
1	6%	5%	3%
2	11%	11%	6%
3	16%	15%	8%
4	20%	20%	11%
5	25%	24%	14%
6	29%	27%	16%
7	32%	31%	19%
8	36%	34%	21%
9	39%	37%	23%
10	42%	40%	26%
11	45%	44%	Amh.
12	48%	47%	Amh.
13	52%	50%	Amh.

## Y Broses Ymddeol

### Hysbysiad gan eich cyflogwr

Gellir ond prosesu eich ymddeoliad ar ôl derbyn yr hysbysiad priodol gan eich cyflogwr, yn cadarnhau eich gwasanaeth, tâl terfynol a'r rheswm dros adael. Gall cyflogwyr ond ddarparu'r manylion hyn ar ôl i'r adran gyflogau gyfrifo a chwblhau eich cyflog terfynol. Gall hyn achosi rhywfaint o oedi wrth dalu eich buddion ymddeol.

Unwaith y bydd eich buddion wedi cael eu cyfrifo, byddwch yn derbyn yr opsiwn i ddewis faint o bensiwn blynyddol yr hoffech ei drosi i greu / cynyddu eich cyfandaliad di-dreth.

Bydd Cronfa Bensiynau Clwyd yn prosesu eich buddion a bydd eich cyfandaliad yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r cyfrif banc gan ddefnyddio'r manylion a ddarparwyd gennych. Gall cyfandaliadau gymryd hyd at 10 diwrnod gwaith i gyrraedd eich cyfrif ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

### Ar ôl ymddeol

Ar yr 28ain o bob mis (neu'r diwrnod gwaith olaf cyn hynny), bydd eich pensiwn yn cael ei gredydu yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc enwebedig, cymdeithas adeiladu neu gyfrif swyddfa'r post.

Byddwch yn derbyn slip talu ar gyfer eich taliad pensiwn cyntaf ac ar ôl hynny, dim ond os bydd eich pensiwn net yn newid o £5.00 neu fwy.

Efallai y bydd eich taliad cyntaf ar gyfer rhan o fis, neu fwy na mis. Caiff hyn ei gadarnhau gan yr Adain Bensiynau pan fyddant yn ysgrifennu atoch.

Mae eich pensiwn blynyddol wedi'i gysylltu â'r mynegai, ac yn cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Mae cynnydd yn cael ei gymhwyso ar y dydd Llun cyntaf ar ôl 6 Ebrill ac yn daladwy o 55 oed neu unrhyw oedran am fuddion salwch neu fuddion dibynyddion.

### Bwriadu byw dramor?

Os ydych yn bwriadu byw dramor, bydd eich pensiwn yn cael ei dalu i chi drwy un o'r dulliau canlynol:

- I fanc neu gymdeithas adeiladu yn y DU
- Yn uniongyrchol i gyfrif banc tramor trwy Equinity Paymaster

Gellir cael rhagor o fanylion ar daliadau tramor gan yr Adain Bensiynau.

**Nodwch, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Adran Bensiynau yn ysgrifenedig os ydych am newid manylion eich cyfrif neu gyfeiriad. Ni ellir gwneud y newidiadau hyn dros y ffôn. Os ydych yn newid eich cyfrif banc, dyfynnwch rifau eich cyfrif banc hen a newydd.**

## Lwfans Blynyddol a Lwfans Oes

### Lwfans Blynyddol

Gall unrhyw un sy'n talu i mewn i gynllun pensiwn gael Lwfans Blynyddol (AA). Mae'r AA wedi'i osod gan y Llywodraeth, a dyma'r swm o bensiwn y gallwch ei gronni mewn blwyddyn ariannol cyn bod tâl treth yn daladwy. Mae'r AA cyfredol yn £40,000.

Mae eich AA yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio gwerth cynyddol eich buddion Llywodraeth Leol o un flwyddyn ariannol i'r nesaf. Os yw'r swm hwn dros £40,000, efallai bydd tâl treth yn daladwy. Mae'n bosibl defnyddio hyd at 3 blynedd flaenorol o lwfans nas defnyddiwyd.

## Lwfans Oes

Ers 6 Ebrill 2006 mae pawb wedi cael Lwfans Oes (LTA) sef y swm uchaf o gynilion pensiwn y gallwch ei gael gyda gostyngiad yn y dreth. Mae'n cynnwys pensiynau o bob ffynhonnell ac eithrio pensiwn y wladwriaeth.

Y terfyn ar gyfer 2014/2015 yw £1.25 miliwn. Oni bai fod gennych pensiwn mawr iawn o pensiwn blaenorol neu gyfredol, mae'n annhebygol y byddwch yn mynd dros yr LTA.

### Mae eich pot pensiwn yn cynnwys:

- Cronfeydd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC) yn fewnol ac yn annibynnol (FSAVC);
- Pensiynau personol, pensiynau personol grŵp a phensiynau cyfranddeiliaid;
- Blwydd-daliadau ymddeol;
- Pensiynau Cadwedig mewn cynlluniau eraill (gan gynnwys pensiynau galwedigaethol);
- Credyd pensiwn o ysgariad

Nid yw pensiynau'r wladwriaeth nac unrhyw pensiynau a gewch fel priod neu ddibynnydd o aelod gynllun pensiwn yn cael eu cynnwys.

Rhowch fanylion unrhyw pensiynau (gros) sydd gennych, gan gynnwys unrhyw pensiynau llywodraeth leol eraill.

## Pwysig

Sylwer NA fydd eich buddion yn cael eu rhyddhau tan y cwblheir y datganiad hwn a'i ddychwelyd i'r Gronfa Bensiwn. Ar ben hynny, byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi mynd dros yr LTA a bydd tâl treth yn cael ei gymhwyso ar eich buddion - 55% ar eich cyfandaliad a 25% ar eich pensiwn (yn ychwanegol at dreth PAYE). Gallech gael dirwy hefyd o £3,000 gan Gyllid a Thollau EM.

## Materion Eraill

### Ail-gyflogaeth

Ni fydd cyflogaeth pellach gyda chyflogwr nad yw'n cymryd rhan yn yr LGPC yn effeithio ar eich pensiwn.

Os byddwch yn cael eich ail-gyflogi gyda chyflogwr sy'n cymryd rhan yn yr LGPS, gall effeithio pensiwn os dyfarnwyd Blynnyddoedd Ychwanegol Cydadferol (CAY) pan wnaethoch ymddeol. Os ydych yn pryderu y gallai hyn effeithio arnoch chi, cysylltwch â'r Adain Bensiynau a fydd yn gallu rhoi rhagor o gyngor i chi.

Nid yw Tâl Colli Swydd yn daladwy os ceir penodiad gydag awdurdod lleol arall o fewn 4 wythnos o'r dyddiad y collwyd y swydd.

### Addasu

Roedd gweithwyr a gyfranogodd mewn cynllun pensiwn galwedigaethol ar ôl 5 Gorffennaf 1948 ac a adawodd y Cynllun cyn 1 Ebrill 1998 yn amodol ar addasiad i'w cynllun pensiwn.

Felly, roedd unrhyw gyfraniadau a dalwyd gennych chi rhwng 5 Gorffennaf 1948 a 31 Mawrth 1980 (pan ddaeth yr addasu i ben) wedi'u gostwng o 6c yr wythnos.

Felly, bydd buddion eich cynllun yn cael ei leihau o £1.70 o oedran ymddeol y wladwriaeth ar gyfer pob blwyddyn a gwblhawyd yn ystod y cyfraniadau a dalwyd.

### A ydych yn derbyn unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth?

Os ydych yn derbyn unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth, gan gynnwys Budd-dal Tai / Treth y Cyngor, Credyd Pensiwn ac ati...

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch darparwr budd-dal eich bod ar fin derbyn buddion pensiwn o gynllun pensiwn galwedigaethol. Bydd methu rhoi gwybod am incwm neu gyfalaf yn gallu arwain at ordaliad o fuddion.



### Isafswm Pensiwn Gwarantedig (G.M.P.)

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn cynnwys dwy elfen; Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth, a elwir yn Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P), sef Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion yn flaenorol (SERPS).

Fel aelod o'r LGPS rydych wedi'ch contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Mae'n rhaid i'r LGPS warantu i ddarparu pensiwn i chi sydd o leiaf yn hafal i'r hyn a ddarperir o dan y S2P. Dyma'ch Isafswm Pensiwn Gwarantedig (G.M.P.) Nid yw G.M.P. yn ychwanegol at y buddion LGPS, mae'n ffurfio rhan o'r pensiwn blynyddol.

Mae hawliad G.M.P. yn seiliedig ar aelodaeth rhwng 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill 1997 ar gyfer aelodau a dalodd gyfraniadau cyfradd lawn, wedi'u contractio allan o Yswiriant Gwladol ac â'r hawl i gael Pensiwn y Wladwriaeth yn eu rhinwedd eu hunain.

Mae G.M.P. yn dod yn daladwy ar Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac yn cael ei rannu'n 2 elfen, cyn 6 Ebrill 1988 ac ar ôl 6 Ebrill 1988. Mae'r holl gynnydd sy'n ddyledus ar y G.M.P. cyn 6 Ebrill 1988 yn cael eu talu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) fel rhan o fudd-dal y Wladwriaeth.

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn talu cynnydd hyd at uchafswm o 3% ar y G.M.P. ar ôl 6 Ebrill 1988. Os bydd y cynnydd blynyddol yn fwy na 3%, mae'r cydbwysedd yn cael ei dalu gan y DWP.

Os oeddech yn aelod o'r LGPS rhwng 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill 1997, a'ch bod yn agos at oedran ymddeol y wladwriaeth, bydd Cyllid a Thollau EM yn ysgrifennu atoch yn eich hysbysu am eich swm G.M.P.

### Swyddfa Treth Cyllid a Thollau EM (HMRC)

#### Eich swyddfa dreth leol yw:

Cyllid a Thollau EM, Plas Gororau, Ellice Way,  
Parc Technoleg Wrecsam  
Wrecsam. LL13 7YY.

Rhif Ffôn: 0845 3000 627  
Mae'r llinellau ar agor o 8am – 8pm (yn ystod yr wythnos),  
8am – 5pm (Dydd Sadwrn)

Pan fyddwch yn ysgrifennu neu'n ffonio, bydd angen i chi ddyfynnu'r Cyfeirnod Treth canlynol: 914/YA14288

Mae Cyllid a Thollau EM yn cyfarwyddo y cewch eich trethu ar sail mis 1 hyd nes eu bod yn rhoi cyfarwyddiadau pellach. Os na fyddwn yn derbyn eich P45, bydd eich pensiwn yn cael ei drethu drwy ddefnyddio cod 1000L hyd nes y ceir cyfarwyddiadau pellach gan y swyddfa dreth.

#### Talu treth ar Bensiwn a budd-daliadau drwy eich cod treth

Mae Pensiwn y Wladwriaeth a rhai budd-daliadau eraill y wladwriaeth yn cyfrif fel incwm trethadwy, ond nid oes unrhyw dreth yn cael ei chymryd i ffwrdd pan fyddwch yn eu derbyn. Mae Cyllid a Thollau EM (HMRC) fel arfer yn gofyn i ddarparwr eich pensiwn gasglu unrhyw dreth sy'n ddyledus ar eich Pensiwn y Wladwriaeth neu fudd-dal arall ar yr un pryd. Maent yn gwneud hyn drwy addasu eich cod treth er mwyn ystyried Pensiwn y Wladwriaeth neu'r budd-dal.

Os ydych yn dal i weithio ac yn cael Pensiwn y Wladwriaeth neu fudd-dal arall, bydd y dreth sy'n ddyledus ar eich Pensiwn y Wladwriaeth neu fudd-dal yn cael ei chasglu naill ai drwy system PAYE eich cyflogwr neu drwy ein system PAYE.

Mae Cyllid a Thollau EM yn rhoi cod treth i Gronfa Bensiwn Clwyd sy'n ein galluogi i gyfrifo faint o dreth (os o gwbl) i'w didynnu.

## Rhowch wybod i ni

Er bod pensiynau'n cael eu talu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc / cymdeithas adeiladu, anfonir yr eitemau canlynol i'ch cyfeiriad cartref:

- Hysbysiad am bensiynau yn cynyddu
- P60
- Slipiau cyflog os bydd eich pensiwn net yn newid o £5 neu fwy
- Tystysgrifau Bywyd (menter Gwrth-dwyll)
- Newyddlenni 'Diweddaraf am Glwyd'

Os bydd unrhyw un o'r uchod yn cael eu dychwelyd fel rhai nas danfonwyd, bydd eich pensiwn yn cael ei ohirio hyd nes y byddwn yn derbyn cadarnhad o'ch cyfeiriad newydd.

### PWYSIG – Cyfathrebu amgen

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn defnyddio sawl ffurf o gyfathrebu er mwyn rhoi'r diweddaraf i'n haelodau gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr. Gall hyn gynnwys gwybodaeth generig megis manylion am newidiadau i'r cynllun.

Os ydych yn hapus i dderbyn yr wybodaeth hon trwy e-bost yn y dyfodol, cysylltwch â ni drwy'r blwch derbyn pensiynau, ([pensions@flintshire.gov.uk](mailto:pensions@flintshire.gov.uk)) a chadarnhau'r cyfeiriad e-bost yr ydych yn dymuno ei gofrestru.

Bydd eich cyfeiriad e-bost yn cael ei ddefnyddio gan Gronfa Bensiynau Clwyd at y dibenion uchod yn unig.

## Buddion sy'n daladwy ar ôl marwolaeth

Bydd eich pensiwn yn dod i ben ar ôl i chi farw. Rhaid i'ch cynrychiolydd personol, sy'n delio â'ch Ystâd, roi gwybod i'r Adain Bensiynau am eich marwolaeth, er mwyn osgoi gordaliad. Yna, byddwn yn rhoi gwybod i'ch perthynas agosaf / dibynyddion neu unigolyn sy'n delio â'ch Ystâd am unrhyw fuddion sy'n daladwy.

Efallai y bydd y buddion canlynol yn daladwy:

- Cyfandaliad grant marwolaeth
  - o osy'n daladwy hyd at 10 mlynedd ar ôl ymddeol neu hyd nes y byddwch yn 75 oed
  - o ohafal i 10 mlynedd o bensiwn pan fyddwch yn ymddeol wedi tynnu unrhyw bensiwn a dalwyd ers ymddeol
  - o gellir enwebu buddiolwyr
- Pensiwn gwraig weddw, gŵr gweddw, partner sifil neu bartner sy'n cyd-fyw â chi
  - o Taladwy am oes
  - o Yn seiliedig ar rywfaint o'ch aelodaeth neu'r cyfan ohoni
- Pensiynau ar gyfer plant cymwys
  - o Yn daladwy tan 18 oed neu 23 oed os ydynt mewn addysg barhaus llawn amser
  - o Os oes gennych blentyn sydd yn gorfforol neu'n feddyliol analluog, gall ystyriaeth arbennig gael ei rhoi a gellir talu'r pensiwn gyhyd ag y bo'r anableded yn parhau.

Os ydych yn derbyn pensiwn gan yr LGPS a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2008, roedd y grant marwolaeth a oedd yn daladwy yn bum gwaith y pensiwn blynyddol, wedi'i leihau gan y pensiwn a dalwyd hyd at ddyddiad y farwolaeth. Fodd bynnag, gan y byddai'r pensiwn bellach wedi'i dalu am fwy na 5 mlynedd ni fydd grant marwolaeth yn daladwy mwyach.

## Ar gyfer aelodau gohiriedig - Nodwch

Os gohiriwyd eich buddion pensiwn ar neu cyn 31 Mawrth 2008 ac wedi hynny wedi'u talu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008, mae'r grant marwolaeth sy'n daladwy os byddwch farw fel aelod pensiwnwr yn 5 gwaith gwerth y pensiwn, wedi tynnu unrhyw faint a dalwyd eisoes. Bydd grant marwolaeth yn daladwy dim ond os ydych o dan 75 oed ar ddyddiad y farwolaeth.

### Pensiwn y Partner sy'n Goroesi

Mae pensiynau priod, partner sifil, neu bartner sy'n cyd-fyw â chi yn cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

### Pensiwn Blynyddol Priod / Partner Sifil / Partner sy'n cyd-fyw â chi

1/160 x cyflog pensiynadwy x aelodaeth berthnasol

**Nodwch fod pensiynau partner sy'n cyd-fyw â chi ond yn daladwy os oes gennych aelodaeth LGPS ar ôl 1 Ebrill 2008.**

Mae pensiynau Partner sy'n Goroesi yn daladwy am oes. Mae cyfnod yr aelodaeth a ddefnyddir i benderfynu ar bensiwn y Partner sy'n Goroesi yn dibynnu ar:

- Eich rheoliadau pensiwn
- Y math o bartner sy'n goroesi, e.e., Gŵr / gwraig weddw, Partner Sifil, Partner sy'n cyd-fyw â chi
- P'un a ydych yn briod / mewn Partneriaeth Sifil cyn neu ar ôl gadael y gwasanaeth

Mae amcangyfrif o bensiwn y Partner sy'n Goroesi yn cael ei gynnwys ar eich datganiad buddion ymddeol ac yn cymryd i ystyriaeth yr aelodaeth berthnasol yn seiliedig ar eich amgylchiadau.

Sylwer mai aelodaeth ar ôl Ebrill 1988 yn unig y gellir ei defnyddio i bennu pensiwn ar gyfer Bartner sy'n Cyd-fyw â Chi. Bydd eich aelodaeth cyn Ebrill 1988 yn cyfrif dim ond **OS** ydych wedi talu Cyfraniadau Buddion Goroeswyr Ychwanegol (ASBCs).

### Meini Prawf Partner sy'n Cyd-fyw â Chi

Os oes gennych wasanaeth LGPS ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008, ac yn marw cyn eich partner, byddant yn derbyn pensiwn dibynnydd sy'n seiliedig ar aelodaeth o Ebrill 6 1988 yn unig (oni bai eich bod wedi talu ASBCs).

Rhaid eich bod wedi bodloni pob un o'r meini prawf isod am o leiaf 2 flynedd ar gyfer partner sy'n cyd-fyw â chi i dderbyn pensiwn dibynnydd:

- eich bod chi a'ch partner sy'n cyd-fyw â chi yn, ac wedi bod, yn rhydd i briodi neu ffurfio partneriaeth sifil gyda'ch gilydd
- rydych chi a'ch partner sy'n cyd-fyw â chi wedi bod yn byw gyda'ch gilydd fel gŵr a gwraig, neu bartneriaid sifil
- nid ydych chi neu eich partner sy'n cyd-fyw â chi wedi bod yn byw gyda rhywun arall fel gŵr a gwraig, neu bartneriaid sifil
- naill ai bod eich partner sy'n cyd-fyw â chi yn ddibynnol arnoch yn ariannol, neu rydych yn gyd-ddibynnol yn ariannol ar ei gilydd. Mae angen dogfennaeth.

### Proses Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP)

Os oes gennych gŵyn neu anghydfod, naill ai yn erbyn y Gronfa neu eich cyn gyflogwr mewn perthynas â chyfrifo neu dalu eich buddion pensiwn, neu ynghylch unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig â'ch buddion LGPS, mae darpariaeth ar gyfer ei datrys a elwir yn Drefn Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP).

Am ragor o wybodaeth, neu i gael ffurflen gais, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

## Cysylltu â Ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

**Yn ysgrifenedig** - Dylid cyfeirio pob gohebiaeth at:  
Cronfa Bensiynau Clwyd  
Neuadd y Sir  
Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint  
CH7 6NA

**Drwy E-bost** - Anfonwch bob e-bost at:  
[pensions@flintshire.gov.uk](mailto:pensions@flintshire.gov.uk)

**Ar y Ffôn** - Ffoniwch:

01352 702876 / 702875 / 702828 os oeddech yn gyflogedig gan

- Cyngor Sir y Fflint

01352 702785 / 702873 / 702874 os oeddech yn gyflogedig gan

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gyrfa Cymru
- Cyngor Sir Clwyd

01352 702784 / 702828 / 702873 os oeddech yn gyflogedig gan

- Cyngor Sir Ddinbych
- Pob Coleg
- Athrawon
- Cyflogwyr Eraill

Os ydych wedi ymddeol a bod gennych ymholiad ynghylch eich taliadau neu eich cod treth, ffoniwch:

Cyflogres Pensiwn ar: 01352 702859 / 702963